

## YDI'R YSBRYD EFENGYLU GENNYCH CHI?

### *Nodyn i'r siaradwr:*

Helpwch bawb i werthfawrogi mai'r gwaith efengylu yw gwaith pwysicaf heddiw. Dangoswch fel mae cannoedd o filoedd yn ymateb 'nawr i'r alwad i ymuno yn y gwaith efengylu llawn-amser. Anogwch bawb sy'n medru i ymgymryd â'r gweithgarwch efengylu llawn-amser, yn hyderus mai ewyllys Jehofah ydyw ac y bydd ef yn eu cynnal

### **NID OES EFENGYL ARALL OND O AIR DUW** (10 mun.)

Dim ond un efengyl ddilys sydd, a Jehofah yw ei Chychwynnydd (Gal 1:11, 12; *w88* 1/1 4)

Daw "efengyl" o air Groeg sy'n golygu "newydd da" neu "neges dda." Yn gywir gelwir un sy'n pregethu newydd da Gair Duw yn efengylwr (*w88* 1/1 3; *it-1* 770-1)

Pregethwyd newydd da am ryddhad a gwaredigaeth gan Jehofah wrth Abraham ragor na 4,000 o flynyddoedd yn ôl (Gal 3:8)

'Oes gennych chi, fel un sy'n caru Duw, yr awydd diffuant a'r penderfyniad i weithredu fel pregethwr newydd da gwirionedd Duw sy'n rhoi bywyd? (1Cor 9:23)

Daw llawer o anogaeth 'nawr gan oruchwyliwr ffyddlon Jehofah i ymgymryd â gweithgarwch ychwanegol fel efengylwr, naill ai'n llawn-amser neu'n rhan-amser (*km* 2/90 3; *km* 7/89 1-2; *km* 10/89 1-2; *w88* 12/15 25-7)

Mae llawer o rai gonest eu calon yn cymdeithasu 'nawr ag efengylwr

Gorchymynnodd Iesu inni wneud disgyblion o'r rhain, "gan eu bedyddio hwy" (Mth 28:19, 20)

Yr angen taer 'nawr yw 'gwneud gwaith fel pregethwr yr Efengyl' a chynorthwyo llawer rhagor i ganfod y ffordd i'r bywyd (2Tim 4:5; *w87* 2/1 10-11; *w86* 1/15 13; *w86* 4/15 28-30)

### **RHAID CYHOEDDI NEWYDD DA GAIR DUW 'NAWR** (11 mun.)

Y cenedloedd 'nawr yn suddo i dywyllwch mwy o dan rym a dylanwad yr un drwg (Dat 12:9)

Wedi i Satan gael ei fwrw o'r nef, y newyddion da oedd fod buddugoliaeth a gallu brenhiniaeth Duw wedi dod ac nad oedd gan yr un drwg ond amser byr ar ôl iddo (Dat 12:10-12)

Y prif beth 'nawr ydi: 'Ydi'r rhai drwg yn medru atal neu ddiddymu'r newydd da, neu a gyflawnir bwriad Jehofah? (Mth 24:14)

Mae dod â thestun-dadl awdurdod brenhinol Jehofah i ben yn effeithio ar bawb ar y ddaear. Fe fydd yr Arglwydd Iesu fel concwerwr yn parhau ochr Jehofah i'r pwnc dadl nes daw concwest lwyf! (Dat 6:2; *re* 90-2)

Yn y nef, mae angylion cedyrn yn gweithio gyda'r Pen Efengylwr i gyfarwyddo lledaenu neges yr efengyl i bellafodd daear (Dat 14:6; *re* 204-5)

Ar y ddaear, mae gan Jehofah filiynau o wirfoddolwyr ewyllysgar; mae hen ac ifanc, dynion, gwragedd, a phlant yn gweithredu fel efengylwr 'nawr

Fel rhyfelwyr egniol, mor niferus â dafnu gwlith, mae'r gweithwyr selog hyn yn eu cynnig eu hunain yn fodlon 'yn nydd nerth' Crist gan fynd ymlaen i fuddugoliaeth sicr (Salmu 110:3 *BCL*; *w87* 3/15 24)

Fe bery'r datganu mawreddog hyd ddiwedd llwyr trefn bresennol ddrwg pethau (Dat 20:1-3; *w88* 1/1 5-7)

Dyna sail addewid godidog! Dyna resymau ardderchog dros lawnder llawenydd! (*w74* 329-34)

### **YDI'R YSBRYD EFENGYLU GENNYCH CHI'N BERTSONOL?** (18 mun.)

Mae llawer yn dod i wybod am y gwirionedd yn y cyfnod mwyaf hunanol yn hanes dyn (2Tim 3:1-5; *w90* 6/15 30)

Mae cariad at Dduw yn eu cyffroi nhw i ymwrthod ag ysbryd hunanoldeb ac i feithrin yr ysbryd efengylu anhunanol (1Tim 4:15; *w87* 2/1 16-17)

Wrth i'w gwerthfawrogiad a'u gwybodaeth o'r gwirionedd gynyddu, sylweddolant mai'r gwaith efengylu yw'r peth pwysicaf mewn bywyd. Golyga fywyd i'r rhai sy'n derbyn y gwirionedd a marwolaeth i'r rhai sy'n ei wrthod. Golyga hefyd fywyd i'r rhai sy'n gwneud y gwirionedd yn hysbys (1Tim 4:16; *w88* 7/15 15-20)

Teithiodd Iesu Grist, yr enghraifft orau o efengylwr â'i holl enaid, ar hyd a lled Israel, gan ddod â neges bywyd a goleuni i'r bobl

'Roedd y mwyafrif yn ei gasáu a'i erlid, ond fe ganfu gredinwyr ac iddynt hwy y rhoddodd y fraint o fod yn gyd-efengylwr neu gludwyr goleuni (Mth 5:14, 16; In 8:12)

'Roedd cwrs ffyddlon Iesu yn batrwm gwych i bawb sy'n dymuno canlyn yn ôl ei draed (Mth 9:35-38; *w73* 269-73)

Esiampl arbennig arall ac un sy'n ffynhonnell anogaeth yw'r apostol Paul, a ddaeth yn yr un modd yn efengylwr selog, gan deithio yn Asia Leiaf ac Ewrop a pheryglu'i fywyd (2Cor 11:23-27; *w87* 2/1 11-14; *w82* 12/1 12-22)

Er iddo gael ei wrthod gan y mwyafrif, sefydlodd ac adeiladu cynulleidfaoedd o gyd-gredinwyr yn yr holl diriogaeth. Bendithiwyd ei ymdrechion yn fawr gan Jehofah (Col 1:5, 6, 23)

Mae miloedd o efengylwr heddiw yn cysegro eu hamser yn llawn i'r gwaith efengylu

Mae Ysgol Gilead wedi hyfforddi miloedd o genhadon sydd wedi mynd i bellafodd daear, gan ddod â'r newydd da i filoedd yn ychwanegol (*w89* 1/1 13-14; *w89* 4/1 26-9; *w88* 10/1 20-5; *w84* 5/1 20-1; *w82* 3/1 17)

Efallai na all eraill fynychu Gilead na symud i rywle arall, ond medrant barhau i amlygu'r ysbryd efengylu (*w74* 337)

Mae angen disgyblaeth a hunan aberth fel y medrwn wneud ein heithaf yn y gwaith efengylu (2Tim 2:15; w87 2/1 18-20)

**MAE LLAWER CYFLE I WASANAETHU FEL EFENGYLWYR 'NAWR** (6 mun.)

Oherwydd y taer angen 'nawr, nid yn unig mae'r gwas ffyddlon yn annog ymgysegru a bedydd ond hefyd yn pwysleisio braint cael rhan weithredol yn y gwaith efengylu

Dros 100 mlynedd yn ôl aeth yr alwad allan gan y Gymdeithas am "1,000 o Bregethwyr"

Ymatebodd rhai, a chynyddodd y nifer yn araf

Mae hunanymwadiad y Nasireaid yn esiampl dda i'r rhai sydd wedi llwyr ymgysegru i weithgarwch efengylu (Num 6:2-6; w82 3/1 19-20)

'Nawr ar gyfartaledd mae dros 600,000 yn derbyn y fraint fawr o wasanaethu yn efengylwyr llawn-amser neu arloeswyr (Lc 8:1; 10:1)

Mae'r alwad 'nawr yn mynd allan i bawb a fedr i ymgymryd â gweithgarwch llawn-amser fel efengylwyr. Rhoddir sicrwydd y bydd Jehofah yn cynnal ac yn gofalu am bawb sy'n gwirfoddoli i wasanaethu yn ei fyddin ewyllysgar o efengylwyr (Salmu 37:25; Lc 12:22-31)

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)